

# Arwr y bobl dlawd

Gosod esiamp / gofal / dewrder / ufudd-dod

**Toyohiko Kagawa: 1888-1960**

Petaech chi'n cael cynnig llawer iawn o arian, beth fuasech chi'n wneud efo'r arian hwnnw? Prynu pob math o deganau? Mae'r stori hon yn sôn am ddyn a gafodd gynnig llawer iawn o arian. Ond wnaeth o ddim derbyn yr arian. Gwell oedd ganddo helpu pobl dlawd.

Bachgen anhapus iawn oedd Toyohiko. Roedd ei fam a'i dad wedi marw pan oedd o'n bedair oed. Bu'n rhaid iddo symud i fyw i bentref mawr. Yn y pentref roedd pawb yn dlawd iawn. Byddai'r plant yn chwarae ar y strydoedd. Pan symudodd Toyohiko i'r pentref doedd neb eisiau chwarae efo fo. Ar ochr y stryd, ar ei ben ei hun, y byddai Toyohiko bob amser. Weithiau byddai'n siarad efo'r adar, dro arall byddai'n siarad efo'r anifeiliaid. Nhw oedd ei ffrindiau. Wrth ymyl yr adeilad lle byddai Toyohiko'n cysgu bob nos roedd fferm. Yn y bore byddai'n siarad efo'r gwartheg, y defaid a'r geifr.

Un diwrnod daeth gŵr cyfoethog i'r pentref. Y gŵr cyfoethog hwn oedd ewythr Toyohiko. Bu'n chwilio amdano ar hyd y strydoedd, yn yr adeiladau ac yn y fferm. Daeth o hyd iddo ryw fore yn siarad efo'r gwyddau gwylltion.

"Rwyf am i ti ddod efo mi," meddai ei ewythr, "mae gen i ddigon o arian i ti fedru mynd i'r ysgol i ddysgu darllen a sgwennu."

Ar ôl iddo ddechrau yn yr ysgol, fe ddaeth yn ffrind mawr ag un o'r athrawon. Fe ddysgodd hwn iddo ddarllen y Beibl. Pan glywodd ei ewythr ei fod yn darllen y Beibl roedd yn ddig ac yn flin iawn. Doedd ei ewythr ddim yn credu yn Iesu Grist.

"Chei di ddim aros efo mi," meddai'i ewythr. "Ffwrdd â ti, does yna ddim croeso i ti yma. A chofia fydd yna ddim mwy o arian i ti."

Gadawodd Toyohiko gartref ei ewythr a mynd yn ôl i'r ysgol i ddysgu bod yn weinidog i Iesu Grist. Bob bore byddai'n dysgu am Iesu Grist, ac yn y pŵn byddai'n mynd allan i helpu'r bobl dlawd. Bob cyfle a gâi fe fyddai'n sôn am "Yaso" sef y gair Japanaeg am Iesu. Aeth i fyw i blith y bobl dlawd. Cafodd dŷ syml yng nghanol y pentref. Roedd y tŷ yn agored i bawb. Byddai lladron,

pobl wael, pobl heb gartrefi a phlant bach yn mynd i'r tŷ. Roedd croeso mawr i bob un yn nhŷ Toyohiko.

Un diwrnod, pan gododd, fe deimlodd boen yn ei lygaid. Pan aeth i weld y meddyg fe ddywedodd hwnnw ei fod yn mynd i golli ei olwg. Roedd bron yn ddall, ond dal ati wnaeth o i helpu'r pobl dlawd. "Rwy'n caru pawb," meddai, "mae'n rhaid i mi eu helpu."

Am amser maith bu'n helpu'r pobl dlawd. Roedd rhaid cael gwaith i'r pobl. Bu'n darllen llyfrau am bobl mewn gwledydd eraill. Dysgodd lawer oddi wrth y llyfrau hyn. Aeth yr hanes amdano drwy Japan i gyd. Roedd pawb yn gwybod am Toyohiko Kagawa.

Ym 1923 bu daeargryn mawr yn y wlad. Roedd yr adeiladau yn y brifddinas Tokyo wedi dymchwel i'r llawr. Roedd dros filiwn o bobl wedi colli eu cartrefi. Roedd hwn yn gyfle newydd i Toyohiko helpu ei bobl.

"Yma rydw i am aros efo fy mhobl fy hun. Er fy mod yn hen erbyn hyn a bron yn ddall, mi rydw i am ddal i weithio'n galed i helpu pawb." Dyma oedd neges Toyohiko bob amser. Trwy ei fywyd bu'n sôn am Iesu Grist, ysgrifennu llyfrau a gweld bod pawb yn cael chwarae teg. Un felly oedd Toyohiko Kagawa.



"Nid yw cariad yn darfod byth."

1 Corinthiaid 13:8



O Dduw,  
gwna fi fel Iesu Grist.  
Amen.  
(Gweddi Kagawa)



Fyddech chi'n dweud fod Kagawa yn ddyn ffôl  
yn agor ei dŷ i bawb?  
Beth petai rhywun wedi ymosod arno?

**Toyohiko Kagawa: 1888-1960**